



## Pleidlais pasys Covid – 5 Hydref 2021

17 Rhagfyr 2021

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Hydref, pan wnaethoch ofyn:

*Hoffwn wneud cais am y wybodaeth a ganlyn o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.*

- 1. Gohebiaeth rhwng staff y Comisiwn a Gareth Davies (Aelod o'r Senedd dros Ddyffryn Clwyd) ynghylch y bleidlais a gynhaliwyd ar 5 Hydref i gyflwyno pasys Covid yng Nghymru*
- 2. Gohebiaeth rhwng staff y Comisiwn yn trafod y bleidlais a gynhaliwyd ar 5 Hydref i gyflwyno pasys Covid yng Nghymru*
- 3. Gohebiaeth rhwng staff y Comisiwn a'r Llywydd yn trafod y bleidlais a gynhaliwyd ar 5 Hydref i gyflwyno pasys Covid yng Nghymru*

*Byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg sy'n ateb y gofynion uchod ac a anfonwyd rhwng 4 Hydref a 14 Hydref, 2021.*

Rwyf bellach mewn sefyllfa i ymateb i'ch cais. Ymddiheuriadau am yr oedi cyn ymateb.

- 1. Gohebiaeth rhwng staff y Comisiwn a Gareth Davies (Aelod o'r Senedd dros Ddyffryn Clwyd) ynghylch y bleidlais a gynhaliwyd ar 5 Hydref i gyflwyno pasys Covid yng Nghymru*

Nid oes gennym wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â'ch cais.

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

*2. Gohebiaeth rhwng staff y Comisiwn yn trafod y bleidlais a gynhaliwyd ar 5 Hydref i gyflwyno pasys Covid yng Nghymru*

Gallaf gadarnhau bod gennym wybodaeth mewn perthynas â'r rhan hon o'ch cais. Atodaf ddogfen ar wahân sy'n cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth sydd gennym. Fodd bynnag, mae rhywfaint o'r wybodaeth yn y ddogfen hon wedi'i golygu oherwydd ei bod yn cynnwys data personol sydd wedi'u heithrio rhag cael eu datgelu o dan yr eithriad 'gwybodaeth personol' yn adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r eithriad hwn yn gymwys pan fo'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cynnwys data personol ac y byddai ei datgelu yn mynd yn groes i un neu fwy o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Gweler **Atodiad B** i'r llythyr hwn am ragor o wybodaeth.

Mae rhywfaint o wybodaeth hefyd wedi'i dal yn ôl ar y sail ei bod wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan adran 36(2)(b)(i) a (ii), ac (c) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Ceir rhagor o wybodaeth yn adran 36 isod.

*3. Gohebiaeth rhwng staff y Comisiwn a'r Llywydd yn trafod y bleidlais a gynhaliwyd ar 5 Hydref i gyflwyno pasys Covid yng Nghymru*

Gallaf gadarnhau bod gennym wybodaeth mewn perthynas â'r rhan hon o'ch cais. Fodd bynnag, ni wneir datgeliad oherwydd bod y wybodaeth sydd gennym wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan adran 36(2)(b)(i) a (ii), ac (c), o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gweler **Atodiad A** i'r llythyr hwn am ragor o wybodaeth.

Yn gywir

**Buddug Saer**  
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**  
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais am ryddid gwybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnlol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnlol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

## **Atodiad A**

### **Adran 36(2) Deddf Rhyddid Gwybodaeth**

Mae adran 36(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn nodi fel a ganlyn:

*(2) Information to which this section applies is exempt information if, in the reasonable opinion of a qualified person, disclosure of the information under this Act-*

*[...]*

*(b) would, or would be likely to, inhibit-*

*(i) the free and frank provision of advice, or*

*(ii) the free and frank exchange of views for the purposes of deliberation, or*

*(c) would otherwise prejudice, or would be likely otherwise to prejudice, the effective conduct of public affairs.*

Llywydd y Senedd yw'r person cymwys at ddibenion adran 36. Mae wedi ystyried y wybodaeth berthnasol ac wedi ffurfio'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth y gwnaed cais amdani yn cael yr effaith a restrir uchod.

Mae adran 36 yn eithriad amodol. Mae hynny'n golygu bod yn rhaid cynnal prawf budd y cyhoedd. Diben y prawf hwn yw penderfynu a yw budd y cyhoedd cysylltiedig â pheidio â datgelu gwybodaeth yn drech na budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth ei datgelu. Mae budd y cyhoedd bob amser yn nhryloywder ac atebolrwydd gwaith y Llywydd a Chomisiwn y Senedd. Fodd bynnag, mae'n rhaid pwysu a mesur hyn yn erbyn budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth gynnal yr eithriad, yn benodol drwy sicrhau bod lle diogel lle y gellir cyfnewid safbwyntiau, a rhoi ac ystyried cyngor. Mae budd y cyhoedd hefyd ynghlwm wrth gynnal y lle diogel ar gyfer trafodaethau sy'n sicrhau gweithrediad effeithiol trafodion y Senedd.

Fel y cyfryw, nid wyf o'r farn bod budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn drech na'r niwed tebygol a fyddai'n dilyn yn sgil datgelu'r wybodaeth honno.

## **Atodiad B**

### **Adran 40 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000: byddai datgelu data personol yn torri GDPR y DU**

Nodir diffiniad data personol yn Erthygl 4 o GDPR y DU, sef:

“any information relating to an identified or identifiable person ('data subject'); an identifiable natural person is one who can be identified, directly or indirectly, in particular by reference to an identifier such as a name, an identification number, location data, an online identifier or to one or more factors specific to the physical, physiological, genetic, mental, economic, cultural or social identity of that natural person”.

Mae'r e-byst a sgysiau Microsoft Teams a gipiwyd gan eich cais yn cynnwys enwau, cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn cyflogaion Comisiwn y Senedd (“y Comisiwn”).

Mae gwybodaeth bersonol wedi'i heithrio rhag ei datgelu o dan adran 40(2) ac adran 40(3A)(a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 pan fyddai ei datgelu yn mynd yn groes i un neu fwy o'r egwyddorion diogelu data a nodir yn GDPR y DU. Yr egwyddor sy'n gymwys ar yr achlysur hwn yw'r egwyddor diogelu data gyntaf.

Mae'r egwyddor diogelu data gyntaf, fel y'i nodir yn Erthygl 5 o GDPR y DU, yn nodi fel a ganlyn:

“Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject ('lawfulness, fairness and transparency')”.

Wrth asesu a fyddai datgelu'r wybodaeth yn deg, rydym wedi ystyried canlyniadau gwneud hynny, disgwyliadau rhesymol yr unigolion dan sylw a'r cydbwysedd rhwng eu hawliau ac unrhyw fudd dilys wrth ddatgelu'r wybodaeth. Ein casgliad yw y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth.

Nid yw'r staff a enwir yn y wybodaeth a gipiwyd gan y cais hwn yn disgwyl i'w gwybodaeth bersonol gael ei datgelu. Yn wahanol i gynrychiolwyr etholedig, nid ydynt yn ymgymryd â rôl sy'n wynebu'r cyhoedd a byddai datgelu eu gwybodaeth bersonol yn creu tramgwydd anghymesur ar eu buddiannau unigol, eu hawliau sylfaenol a'u rhyddid gan na fyddai'n ychwanegu at sylwedd ein hymateb. Pan fo budd y cyhoedd yn pwysu'n drymach o blaid datgelu gwybodaeth, megis pan enwir uwch-staff y Comisiwn ar lefel Cyfarwyddwr neu'n uwch, datgelir y wybodaeth honno.

Er gwaethaf fy marn ynghylch sicrhau tegwch, euthum ymlaen i ystyried Erthygl 6 o GDPR y DU. Nid yw unrhyw un o'r seiliau cyfreithiol yn Erthygl 6 yn gymwys, heblaw am Erthygl 6(1)(f), sy'n caniatáu i ddata personol gael eu prosesu ar yr amod a ganlyn:

"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party, except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child."

Mae'r amod hwn yn cynnwys prawf mewn tair rhan:

- rhaid bod datgelu'r wybodaeth o fudd dilys y cyhoedd;
- rhaid i'r datgeliad fod yn angenrheidiol i sicrhau budd y cyhoedd;
- ni ddylai'r datgeliad anwybyddu buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddid gwrthrych y data.

Rydym wedi ystyried yn fanwl y buddiannau perthnasol, sy'n cynnwys: rhwymedigaethau'r Comisiwn o dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018; eich hawl chi i gael mynediad at y wybodaeth hon; yr unigolion dan sylw a'u hawl hwy i breifatrwydd; a budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth hon.

Yn ein barn ni, ni fyddai rhoi gwybodaeth bersonol staff y Comisiwn yn ychwanegu at sylwedd ein hymateb i'ch cais. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith nad yw rolau'r staff hynny yn rhai sy'n wynebu'r cyhoedd nac ychwaith ar lefel ddigon uchel sy'n pwysu'n drymach o blaid datgelu eu gwybodaeth bersonol, yn ein harwain i'r casgliad nad yw'n ymddangos bod budd dilys ynghlwm wrth ddatgelu gwybodaeth bersonol staff hynny y Comisiwn i chi. Mae rhoi'r wybodaeth ar ei ffurf olygedig yn ffordd gytbwys o fodloni budd y cyhoedd ac, ar yr un pryd, sicrhau na thanseilir buddiannau, hawliau sylfaenol na rhyddidau unigolion.